**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 16 Gorffennaf 2019 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Philip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Haf Williams, Meirwen Lloyd, Clifford Williams, Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Alan Pritchard, Hefin Jones, Beca Brown

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Richard Robinson, Martin Jones

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Aelodau o'r cyhoedd**

Mr Graham Williams, Cadeirydd Band Llanrug
Dr Clare Eno, ymgeisydd am sedd wag ar y Cyngor

**438. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod

**439. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**440. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**441. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 18 Mehefin 2019**

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**442. Cadarnhau cofnodion o gyfarfod arbennig a gynhaliwyd 24 o Fehefin 2019**

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**443. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**Eitem 424 –** Fyddai yn bosib cael chwynladdwr ar y ffordd i'r fynwent

**Eitem 425 –** Mater i'r Pwyllgor Cyllid

**Eitem 427** – Atgoffa am y diwrnod casglu sbwriel yn Cwm y Glo ar yr 20fed o Orffennaf a Llanrug ar yr 27ain o Orffennaf. Cyfarfod am 9:30 yn. Adroddodd y Cynghorydd Meirwen Lloyd fod Merched y Wawr wedi bod o amgylch y pentref yn casglu ysbwriel.

**Eitem 430 –** Adroddwyd fod llythyr wedi mynd i'r feddygfa ond hyd yma nid wedi derbyn yamteb.

**Eitem 436** – Cysylltu a'r Parchedig Robert Townsend a gofyn os fyddai yn bosib cael amserlen i gwblhau'r gwaith ac os buasai yn bosib dod a'r gwaith ymlaen.

**444. I ystyried cyfethol aelod ar gyfer ward Llanrug a cyfle i holi etholwr sydd wedi datgan diddordeb ar gynrychioli ward Llanrug**

Eglurodd y Cadeirydd gefndir y broses a gyfethol aelod ar y Cyngor Cymuned ac nad oedd cais wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd am etholiad, felly roedd yn disgyn i'r cyngor gyfethol. Eglurodd fod dau gais arall wedi dod i law felly ni fyddai yn bosib ethol neb heno oherwydd byddai rhaid i'r ddau ymgeisydd yma cael yr un cyfle i ysgrifennu pwt am eu hunain ac i ddod ger bron y cyngor. Ar ôl gweld y ddau ymgeisydd arall, bydd yn cyngor yn cyfethol.

Cyflwynodd Dr Eno ei hun a rhoddodd grynodeb o'i chefndir a'i phrofiad.

Ar ddiwedd yn cyflwyniad cafodd yr aelodau gyfle i'w holi a cafodd hithau yn yr un modd gyfle i holi'r aelodau

Diolchodd y Cadeirydd iddi am ddangos diddordeb mewn eistedd ar y cyngor ac estynnwyd cynnig iddi aros hyd ddiwedd y cyfarfod os y dymunai ond oherwydd gofynion eraill nid oedd yn bosib iddi aros a gadawodd y cyfarfod.

**Penderfynwyd:** Dim penderfyniad dim ond y clerc i gysylltu a'r ddau ymgeisydd arall a'i gwahodd i gyfarfod o'r cyngor nesaf.

**445. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Nid oedd adroddiad ar gael ond cymerodd  cyfle i ymateb i unrhyw gwestiwn gan yr aelodau.

**446. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Amserlenni Bws o 14/7/2019

Gwasanaeth Bws 85 a 86 :  Llanberis – Bangor via Llanrug/Deiniolen/Ysbyty Gwynedd  a Bws 88 (Dydd Sul) : Llanberis – Llanrug – Caernarfon
Ewch i https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Parcio-ffyrdd-a-theithio/Amserlenni-bws/Amserlenni-bws.aspx

Problem parcio tu allan i Llys Arfon, Ffordd Llanberis

Dyma'r ateb mae'r etholwr wedi dderbyn oddiwrth Dylan Wynn Jones, Rheolwr Uned Traffig Cyngor Gwynedd, trwyddo fi:
**Cyfeiriaf at ein sgwrs ffôn ddiweddar.**

Gallaf gadarnhau nad ydym yn rhoi lleoedd parcio preswyl ar sail unigol. Caiff cynlluniau o' r fath eu hystyried ar sail stryd neu ardal yn unig.
Os yw'r preswylydd dan sylw am fynd ati i ystyried cynllun parcio preswyl ar gyfer ei stryd, mae croeso iddynt gysylltu â ni yn uniongyrchol. Fodd bynnag, rhaid nodi nad yw cynllun parcio preswyl o reidrwydd yn sicrhau bod lle penodol yn cael ei gadw y tu allan i eiddo unigol a bod tâl blynyddol yn daladwy. Rhaid nodi hefyd y byddai angen mwyafrif sylweddol o breswylwyr arnom, sydd o blaid cynllun o'r fath, cyn y byddem yn ystyried y mater ymhellach.

**447. I ystyried cais oddi tan Ddeddf Trwyddedau 2003 – Y Fricsan, Cwm y Glo**

Adroddwyd fod cais wedi dod i law am drwydded ar drwydded gwerthu alcohol yn y Fricsan ar gyfer ei werthu gyda prydau. Nodwyd fod y bwriad i greu bwyty yn yr adeilad yn ogystal a byddai hyn yn adnod ychwanegol i'r pentref.

**Penderfynwyd:** Yn dilyn trafodaeth ar y cais, ac fe ystyriwyd yr angen yn Nghwm y Glo am wasanaeth o'r math yma, penderfynwyd cefnogi'r cais ac fod

**448. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod o'r pwyllgor cyllid a gynhaliwyd 1af o Orffennaf 2019**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes fod y pwyllgor wedi cyfarfod ond oherwydd mai dau oedd yn bresennol, nid oedd wedi bod yn bosib gwneud unrhyw benderfyniad.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a cytuno i gynnal pwyllgor cyllid arall ar 31 o Orffennaf 2019

**449. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod gyda Dylan Jones o Gyngor Gwynedd a gynhaliwyd 16 o Orffennaf 2019.**

Adroddwyd fod y Cynghorwyr Phil Roberts, Goronwy Hughes, Hefin Jones, Haf Williams, Meirwen Lloyd ynghyd a'r Cynghorydd Charles Jones wedi cyfarfod ar safle ger Erw Hywel am 9:00 y.b. gyda Dylan Jones o Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Pwrpas y cyfarfod oedd i'r cyngor cymuned allu ceisio rhoi perswâd ar Gyngor Gwynedd i ostwng y cyflymder o 40 mya i 30 mya hyd at yr arwydd 40 presennol. Amlinellwyd fod y cyngor cymuned wedi derbyn nifer o gwynion gan drigolion lleol am geir yn gyrru'n gyflym ac fod y cyflymder presennol o 40 yn ormod.

Adroddwyd nad oedd yn bosib gostwng y cyflymder presennol i 30 oherwydd fod y cyflymder presennol yn cydymffurfio a'r rheolau cyfredol.

Fodd bynnag cytunwyd ar y pwyntiau canlynol

- Gwella’r arwyddion 40 m.y.a. presennol. Gosod gyda chefndir melyn ac ychwanegu symbol camerâu ar yr arwyddion `repeaters`

- Gosod marciau Ffyrdd lliw coch ac `rumble strips` gyda’r arwyddion 40 m.y.a.

- Edrych ar y posibiliadau o ail leoli’r arwyddion er mwyn gwella ei gweledEdd blaen

- Trefnu i dorri ar ordyfiant o fewn ffin y briffordd

- Cysylltu â’r Heddlu (Go Safe) I ofyn iddynt ystyried camau gorfodaeth yn y rhan yma o'r pentref

Y gobaith yw y bydd yr uchod yn gallu cael eu cyflawni o fewn yr wythnosau nesaf.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a cysylltu a Mr Dylan Jones i ddiolch iddo am ddod i gyfarfod ac i atgyfnerthu y pwyntiau a gytunwyd arnynt.

**450. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod o’r pwyllgor hamdden a mwynderau a gynhaliwyd 16 o Orffennaf 2019**

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod cyn y cyfarfod o’r cyngor llawn ac fe adroddwyd y canlynol

- Etholwyd y Cynghorydd Cemlyn Jones yn gadeirydd y pwyllgor am 2019 / 2020;
- Etholwyd y Cynghorydd Haf Williams yn Is-gadeirydd y pwyllgor am 2019 / 2020
- Adroddwyd fod yr holiaduron a gwblhawyd gan blant ysgol gynradd ac uwchradd Llanrug wedi eu cwblhau a’i dychwelyd ac ymysg yr hyn roedd y plant yn gofyn amdano oedd ‘campfa tu allan’. Penderfynwyd symud ymlaen a ceisio grantiau i wneud hyn a’i leoli yn Cwm y Glo.
- Plannu cennin pedr eleni yn Cwm y Glo a cae chwarae Nant y Glyn;
- Trefnu i gyfarfod a Mrs Meinir Griffiths ar gyfer trefniadau ar gyfer y goeden Nadolig.
- Trefnu i gael un contractwr os yn bosib fyddai yn gallu danfon, gosod a goleuo’r coed Nadolig yn hytrach nac ein bod yn gorfod cydgordio nifer o bobl;
- Archebu goliau ar gyfer cae chwarae Cwm y Glo oherwydd fod y rhai presennol yn berygl;
- Prynu siglen babi yn lle yr un a lafuriwyd ar gae Nant y Glyn;
- Yn dilyn yr ymateb i holiaduron Cwm y Glo cyn i’r cyngor cymuned gymryd y cae chwarae drosodd nodwyd mai dymuniad pobl Cwm y Glo oedd i gael byrddau picnic ar y cae a creu llefydd parcio.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a symud ymlaen a penderfyniadau'n pwyllgor; ond archebu a trefnu i'r goliau gael eu gosod yn syth fel gellir eu defnyddio dros wyliau'r Haf.

**451. I dderbyn cyflwyniad gan Mr Graham Williams, Cadeirydd Band Llanrug**

Adroddwyd gan Mr Graham Williams, sefyllfa gyfredol y band ac fod y band yn colli aelodau i fandiau cyfagos. Roedd newydd gymryd drosodd fel Cadeirydd ac yn awyddus i gydweithio gyda mudiadau fel y cyngor cymuned er lles y gymuned. Nododd byddai yn fodlon iawn o dderbyn unthyw gymorth gan y cyngor cymuned. Nodwyd nad oedd y band wedi gwneud cais llynedd am grant tuag at y cyngor cymuned.

**Pednerfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolchwyd i Mr Williams am ddod i gyfarfod o'r cyngor cymuned. Cafodd yr aelodau gyfle i holi ac i roi nifer o awgrymiadau iddo. Cytunwyd yn ogystal byddai linc i ffurflen gais am grant yn cael ei anfon iddo.

**452. I dderbyn diweddariad ar faterion yn ymwneud a mynwent yr Eglwys a sefyllfa'r wal ar y ffordd i'r fynwent gan Y Parchedig Robert Townsend**

Nid oedd y Parchedig Robert Townsend yn bresennol felly gohiriwyd yr eitem

**453. Cais Cynllunio**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0619/23/DA

**Lleoliad y Safle:** Pen Rallt, Cwm y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL554DU

**Dyddiad Cofrestru:** 04/07/2019

**Math o Gais:** Diwygiadau Ansylweddol

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Diwygiad ansylweddol ar gyfer creu mynedfa gerbydol a rhodfa newydd a ganiatawyd o dan gais rhif C18/0095/23/LL

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**454. I ystyried unrhyw fater yn ymwneud a'r Fynwent**

Penderfynwyd: Cynnal cyfarfod o bwyllgor y fynwent am 19:15 ar 31 o Orffennaf yn y fynwent os yn sych, neu yn y Sefydliad Coffa os yn wlyb.

**Argymhellir fod y cyhoedd a’r wasg yn cael eu gwahardd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf**

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 Adran 1 (2) yn nodi “Gall corff, trwy benderfyniad, wahardd y cyhoedd o gyfarfod (yn ystod yr achos cyfan neu ran ohono) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod neu am resymau arbennig eraill a nodwyd yn y penderfyniad ac sy'n deillio o natur y busnes hwnnw neu'r trafodion, a phan gaiff penderfyniad o'r fath ei basio, ni fydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod bod ar agor i'r cyhoedd yn ystod trafodion y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddynt. "

Fe ystyrir yn gyffredinol ei bod yn dderbyniol gwahardd y wasg a'r cyhoedd os yw'r eitem agenda yn ymwneud ag ystyried tendrau, prydlesi, prynu asedau, ar gyfer materion yn ymwneud â staffio a gwmpesir gan y Ddeddf Diogelu Data ac ystyried cwynion yn erbyn y cyngor neu gwyn o’r côd ymddygiad.

**455. I ddiweddaru’r Cyngor ar y broses o bennu cyflog y clerc.**

Eglurodd y Cynghorydd Goronwy Hughes fod trafodaethau wedi bod rhwng y clerc, y Cynghorydd Alan Pritchard a ef i benderfynu ar bwynt cyflog y clerc. Esboniwyd y drefn dylid ei mabwysiadu ac eglurwyd fod trafodaethau pellach i’w cynnal.

Yn sgil yr arfarniad cyntaf, argymhellwyd talu’r clerc ar bwynt 31 o’r 1af o Ebrill 2019 ac yn y cyfamser, y clerc i baratoi swydd ddisgrifiad ac wedyn bydd yn rhaid edrych ymhellach ar y cyflog. Amcangyfrif bydd y broses yma ddim wedi gorffen hyd nes bydd y cyngor yn gosod ei praesept ar gyfer 2020 / 2021.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a gwneud taliad i’r clerc ar bwynt 31 o’r 1 Ebrill 2019

Daeth y cyfarfod i ben am 21:20

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: